**VF S51 Translation 230524**

(Email Subject) - Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol (MP)) 2024 – Ymgynghoriad Adran 42

Annwyl Jacquie,

Daeth Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol (DA)) 2024 i rym ar 30 Ebrill 2024 ac maent yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig (CFGR)) 2009. Mae'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 4 o'r Rheoliadau DA 2024 yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau CFGR a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn berthnasol i unrhyw gais arfaethedig am orchymyn caniatâd datblygu lle mae'r ymgeisydd wedi dechrau ymgynghori o dan Adran 42 o'r Ddeddf Cynllunio 2008 cyn 30 Ebrill 2024. Mae'r Arolygiaeth yn cysylltu â chi gan ei bod yn deall nad oedd ymgynghoriad dan Adran 42 ar gyfer prosiect Green Gen Vyrnwy Frankton wedi dechrau cyn 30 Ebrill 2024.

Hoffai'r Arolygiaeth eich hysbysu fod oherwydd cafodd y cais barn gwmpasu ar gyfer prosiect Green Gen Vyrnwy Frankton ei dderbyn cyn 30 Ebrill 2024, ni fydd y rhestr o gyrff ymgynghori a hysbyswyd ac ymgynghorwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio cyn mabwysiadu'r farn gwmpasu (fel y nodir yn 'rhestr Rheoliad 11' a ddarperir i'r Ymgeisydd yn unol â Rheoliad 11(1)b o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA)) 2017) yn adlewyrchu'r diwygiadau diweddar i'r Rheoliadau CFGR. Cynghorir yr Ymgeisydd felly i adolygu'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 4 o Reoliadau DA 2024, ynghyd â'r diwygiadau i'r Rheoliadau CFGR, ac ystyried a ddylid cynnwys unrhyw gyrff ymgynghori newydd neu wahanol yn yr ymgynghoriadau ar gyfer y prosiect. Sylwch mai cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw sicrhau bod eu hymgynghoriad yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Cynllunio 2008 a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae'r rhestr Rheoliad 11 wedi'i llunio gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei dyletswydd i hysbysu'r cyrff ymgynghori yn unol â Rheoliad 11(1)(a) o'r Rheoliadau AEA ac, er y gall hysbysu ymgynghoriad yr Ymgeisydd ei hun, ni ddylid dibynnu arno i'r pwrpas hwnnw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi cyn cysylltu.

Cofion cynnes,

Jake